



**Cyngor Sir Powys / Powys County Council**  
**Neuadd Y Sir / County Hall**  
**Llandrindod Wells**  
**Powys LD1 5LG**

Dyddiad/Date: 17 /6/ 2020

Annwyl Riant / Gofalwr

Diolch am eich cefnogaeth, dealltwriaeth ac amynedd dros y tri mis diwethaf. Rwy'n ddiolchgar i chi am bopeth rydych wedi'i wneud i helpu eich plentyn, ysgol eich plentyn a'r cyngor ar gyfnod anodd.

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybodaeth bellach i chi ar y ddarpariaeth gofal plant brys i blant cymwys ym Mhowys ac ailgychwyn dysgu yn yr ysgol i ddisgyblion dros weddill tymor yr haf (tan ddydd Gwener 24 Gorffennaf).

#### **Prif bwyntiau**

- **Am 6 pm, nos Fercher 24 Mehefin, bydd y canolfannau gofal plant brys ym Mhowys yn cau**
- **O ddydd Iau 25 Mehefin tan ddydd Gwener 24 Gorffennaf, bydd modd manteisio ar ofal plant brys yn eich ysgol eich hun, ond dim ond rhwng 8.30am tan 4.30 pm**
- **O ddydd Llun 29 Mehefin bydd ysgolion yn dechrau derbyn eu disgyblion eu hunain i sesiynau penodol yn yr ysgol**
- **Ni fydd nifer y disgyblion yn yr ysgol ar y tro yn fwy na thraean cyfanswm capasiti adeilad yr ysgol**
- **Bydd llefydd yn gyfyngedig i weithwyr allweddol sydd eisoes wedi cofrestru â'r canolfannau gofal plant brys dros y 12 wythnos diwethaf a bydd blaenoriaeth i staff ysgolion a blynyddoedd cynnar**
- **Mae'r cyngor yn ymwybodol fod yna alw mawr ar hyn o bryd gan weithwyr allweddol nad oedd wedi cofrestru eu plant cyn hyn gyda'r canolfannau gofal plant brys. Rydym yn trafod sut y gallwn ateb y galw hwn. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am unrhyw drefniadau gofal plant arall cyn gynted ag y gallwn**
- **Bydd cludiant ysgol arferol yn cychwyn dydd Llun, 29 Mehefin gyda'r cwmnïau cludiant yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gadw pellter cymdeithasol**

**Cymorth gofal plant brys i weithwyr allweddol yn unig.**

Yn dilyn cyhoeddiadau diweddar gan y gweinidog, bydd yna newidiadau sylweddol i'r ddarpariaeth gofal plant brys a bydd angen i ni roi'r rhain ar waith fel mater o frys.

**Yn agored a blaengar - Open and enterprising**

**[www.powys.gov.uk](http://www.powys.gov.uk)**



Am 6pm, nos Fercher 24 Mehefin, bydd y canolfannau gofal plant brys ym Mhowys yn cau.

O ddydd Iau 25 Mehefin (tan ddydd Gwener 24 Gorffennaf), bydd ysgolion y plant eu hunain yn cynnig gofal plant brys.

Cofiwch, o ddydd Iau 25 Mehefin, dim ond rhwng 8.30am a 4.30pm y gallwch fanteisio ar ofal plant brys.

Er mwyn gwneud cais am ofal plant brys i weithwyr allweddol, bydd angen i rieni/gofalwyr wneud cais yn wythnosol gan ddefnyddio system ar-lein y cyngor sef: [www.powys.gov.uk/emergencyhub](http://www.powys.gov.uk/emergencyhub).

**Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais fydd 9am bob dydd Iau am ofal plant ar gyfer yr wythnos ganlynol – bydd hyn ar gyfer disgyblion cynradd. Bydd angen i rieni disgyblion uwchradd gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol i drafod anghenion.**

Gan y bydd ysgolion unigol hefyd yn derbyn plant arall ar y safle (ar sail rota, yn ôl gallu'r ysgol ei hun), **bydd llefydd yn cael ei gyfyngu a'i flaenoriaethu i weithwyr allweddol sydd eisoes wedi cofrestru gyda'r canolfannau gofal plant brys dros y 12 wythnos diwethaf.**

Rydym yn ymwybodol fod yna alw mawr ar hyn o bryd gan weithwyr allweddol nad oedd wedi cofrestru eu plant cyn hyn gyda'r canolfannau gofal plant brys. Rydym yn trafod sut y gallwn ateb y galw hwn. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am unrhyw drefniadau gofal plant arall cyn gynted ag y gallwn.

Dylai rhieni / gofalwyr gofio nad yw'r cyngor mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gadarnhau a fydd gofal plant brys ar gael dros wyliau'r haf (rhwng dydd Llun 27 Gorffennaf a dydd Mawrth, 1 Medi).

Bydd gwybodaeth bellach ar ddarpariaeth gofal plant brys dros wyliau'r haf ar gael yn fuan.

### **Ailgydio, dal i fyny a pharatoi**

Yn dilyn cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Addysg ar ail-agor ysgolion, mae'r cyngor yn awyddus i weithio gydag ysgolion a rhieni/gofalwyr i sicrhau fod disgyblion yn bachu ar y cyfle i ailgydio gyda'r ysgol, dal i fyny gyda'u cyfoedion a'u hathrawon a pharatoi at y flwyddyn ysgol nesaf.

O ddydd Llun 29 Mehefin, bydd ysgolion Powys yn dechrau derbyn eu disgyblion eu hunain i ddod i sesiynau penodol yn yr ysgol.

Fodd bynnag, ni fydd pob dysgwyr yn dychwelyd ar unwaith, a phan fyddan nhw'n dychwelyd, bydd y diwrnod ysgol yn dechrau ac yn gorffen ar amserau gwahanol i ddysgwyr gwahanol. Gall hyn gynnwys trefniadau gwahanol i frodyr a chwiorydd o wahanol oeddrannau sy'n ddisgyblion yn yr un ysgol.

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

[www.powys.gov.uk](http://www.powys.gov.uk)



Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi datgan na fydd cyfanswm y disgyblion mewn unrhyw ysgol ar y tro yn fwy na thraean cyfanswm capasiti adeilad yr ysgol.

O ganlyniad i hyn, rhwng dydd Llun 29 Mehefin a dydd Gwener, 24 Gorffennaf, **y gobaith yw gwahodd eich plentyn i'r ysgol o leiaf dair gwaith (oni bai eu bod yn gallu derbyn gofal plant brys yng nghanolfan gofal plant yr ysgol honno) ond bydd hyn yn amrywio o ysgol i ysgol.**

Dros y cyfnod hwn, mae'n bwysig nodi mai rhieni a gofalwyr sydd i benderfynu p'un ai i anfon y plant i'r ysgol neu beidio. Os bydd rhieni/gofalwyr yn penderfynu peidio anfon y plant i'r ysgol dros dymor yr haf, ni fyddant yn cael eu cosbi. Os byddwch yn penderfynu peidio anfon eich plant i'r ysgol, byddan nhw'n parhau i dderbyn yr un cymorth gan yr ysgol a gafwyd hyd yma.

Pan fydd eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol, bydd y ffocws ar les disgyblion ac ar fwynhau dysgu yn yr awyr agored yn eu hamgylchedd dysgu penodol pan fydd hyn yn ymarferol.

Bydd ysgolion uwchradd hefyd yn canolbwyntio ar les ac yn cael sgwrs â phob disgybl. Byddan nhw hefyd yn canolbwyntio ar y dysgu gan blant cyn galwadau academaidd y flwyddyn ysgol nesaf.

I helpu ysgolion unigol gyda'u gwaith cynllunio, byddai'n fuddiol iawn iddyn nhw wybod a yw rhieni a gofalwyr yn ystyried anfon eu plant i'r ysgol pan ddaw'r gwahoddiad. Diolch i'r rhai sydd wedi llenwi'r holiadur i helpu gyda'r broses.

Rwy'n gwybod y bydd athrawon, arweinwyr a staff cymorth ysgolion wrth eu bodd i weld eu disgyblion eto ar yr achlysuron hyn.

Unwaith eto, rwy'n awyddus i wneud popeth sy'n bosibl i'ch sicrhau chi bod y cyngor yn gwneud ei orau glas i helpu gyda lles emosiynol a chorfforol dysgwyr. Mae'r cyngor yn gweithio'n agos gydag ysgolion a phartneriaid i sicrhau bod arweiniad a chefnogaeth wrth law i helpu eich plentyn i dychwelyd i'r ysgol.

I gloi felly, hoffwn ddiolch i chi gyd eto am eich cefnogaeth ar adeg anodd iawn.

Yn gywir,

**Cyng. Phyl Davies**  
**Aelod Portffolio – Addysg ac Eiddo**

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

[www.powys.gov.uk](http://www.powys.gov.uk)



Yn agored a blaengar - Open and enterprising  
[www.powys.gov.uk](http://www.powys.gov.uk)